




Prosbectysau Ysgolion

Canllawiau ar gyfer Penaeithiaid a Chyrff Llywodraethol



CYNNWYS

Cyflwyniad	Tudalen
Rhestr ddarllen	2-3
Cefndir	4-5
Amseru	5
Fformat	5
Cynhyrchu deunydd atyniadol	5
Enghreifftiau o dudalennau gwefan	6-7
Cynnwys	
Manylion ymarferol	8-9
Cwricwlwm, trefniadaeth addysgol a dulliau addysgu'r ysgol	10-13
Trefniadau cwricwlaidd arbennig a threfniadau eraill a wneir ar gyfer categorïau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai â datganiadau o anghenion addysgol arbennig	14
Trefniadau o ran cwyno am y cwricwlwm	14
Cynnwys a threfniadaeth polisi addysg rhyw	14
Addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn yr ysgol	15
Y defnydd o'r iaith Gymraeg	15
Chwaraeon	15-16
Addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd, profiad gwaith (Uwchradd)	17-18
Ethos a gwerthoedd yr ysgol	19-21
Cyfle cyfartal	22
Disgyblion ag anableddau	22
Diogelwch yr ysgol	23-24
Gwybodaeth am dderbyn disgyblion	24
Data presenoldeb	24
Canlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Cynradd)	25-27
Gwybodaeth am berfformiad ysgolion (Uwchradd)	28-29
Manylion am gyrchfannau disgyblion dros 16 oed (Uwchradd)	30
Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Uwchradd)	Atodiad 1
Cynnwys Prosbectysau Ysgolion: Cyfeiriadau at Offerynnau Statudol	Atodiad 2

Caiff y Cylchlythyr hwn ei gyfeirio at Gadeiryddion Cyrff Llywodraethol a Phenaethiaid. Caiff copïau ohono eu hanfon at Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Addysg mewn Awdurdodau Lleol, Ysgrifenyddion cyrff cenedlaethol a lleol, a Sefydliadau Hyfforddi Athrawon.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r Cylchlythyr hwn a Llyfrynnau'r Cynulliad Cenedlaethol a restrir isod gan:

Cangen Rhieni a Gwybodaeth (ASP4)
Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6010
Ffacs: 029 2082 6016
E-bost: education.training@wales.gsi.gov.uk
neu ymwelwch â www.dysgu.cymru.gov.uk

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Catherine Roberts
Cangen Rhieni a Gwybodaeth (ASP4)
Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6012
Ffacs: 029 2082 6016
E-bost: Catherine.Roberts@Wales.gsi.gov.uk

RHESTR DDARLLEN

Llyfrynnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Cylchlythyr 15/01 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiadau Blynnyddol Llywodraethwyr – Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethol;
- Gosod Targedau – Canllawiau ar gyfer Penaethiaid a Chyrff Llywodraethol (2000);
- Cylchlythyr 35/98 y Swyddfa Gymreig: Adroddiadau ar Gyflawniadau Disgyblion o 1999 ymlaen;
- "Sut mae'ch Plentyn yn dod Ymlaen yn yr Ysgol Gynradd?" Arweiniad i Rieni ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, Asesu a Chyflwyno Adroddiadau (a gynhrychir bob blwyddyn);
- "Sut mae'ch Plentyn yn dod Ymlaen yn yr Ysgol Uwchradd?" Arweiniad i Rieni ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, Asesu a Chyflwyno Adroddiadau (a gynhrychir bob blwyddyn);
- Cylchlythyr 18/00 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cymeradwyo Cymwysterau yn Statudol o dan Adran 400.

Cynhrychir y canlynol bob blwyddyn:

- Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 1;
- Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 2;
- Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 3;
- Canlyniadau TGAU/CGCC yng Nghymru: Cyfnod Allweddol 4;
- Gwybodaeth Feincnodi ar gyfer Cyfnod Allweddol 1;
- Gwybodaeth Feincnodi ar gyfer Cyfnod Allweddol 2;
- Gwybodaeth Feincnodi ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a 4.

Canllawiau ACCAC:

- Cyfres Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu;
- Awgrymiadau Ymarferol ar gyfer Asesu Disgyblion Sy'n Gweithio Tuag At Lefel 1.

ACCAC Publications
PO Box 2129
Erdington
Birmingham
B24 ORD
Ffôn: 07071 223646
Ffacs: 0121 3776522

Cyhoeddiadau Estyn:

- Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Cynradd: Gosod Targedau ar gyfer Gwella (1999);
- Pa mor dda yr ydym yn ei wneud? Arolwg o hunan-arfarnu mewn Ysgolion Uwchradd 1998-1999 (1999);
- Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Uwchradd: Mynd i'r Afael â Pherfformiad Isel (1999);
- Hunan-Arfarnu mewn Ysgolion Cynradd: Ychwanegu gwerth a gwneud gwahaniaeth (2001).

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW
Ffôn: 029 2044 6446
Ffacs: 029 2044 6448

CYFLWYNIAD

Mae'r Cylchlythyr hwn yn rhoi canllawiau i ysgolion a Chyrff Llywodraethol ar gynnwys statudol Prosbectysau Ysgolion. Mae'n disodli'r canllawiau blaenorol a gynhwyswyd yng Nghylchlythyrau 22/96 a 40/96 y Swyddfa Gymreig mewn perthynas â Phrosbectysau Ysgolion. Caiff y wybodaeth sy'n ymwneud ag Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr ei disodli gan Gylchlythyr 15/01.

Mae rhai mân newidiadau i'r rhestr gynnwys statudol ar gyfer Prosbectysau Ysgolion, fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygiad) 2001. Y prif newidiadau yw:

- bod yn rhaid i'r adran sy'n ymwneud ag ethos a gwerthoedd yr ysgol gynnwys manylion am y cytundebau ysgol-cartref a lunnir gan yr ysgol;
- bod yn rhaid cynnwys manylion am y polisiau cyfle cyfartal;
- bod yn rhaid cynnwys eitem am y trefniadau ar gyfer disgyblion anabl ym Mhrosbectws yr Ysgol **yn ogystal ag** yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr;
- bod yn rhaid cynnwys manylion am drefniadau diogelu a iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion, staff ac adeiladau'r ysgol ym Mhrosbectws yr Ysgol ac **nid** yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 a byddant yn dod i rym ar 1af Medi 2001.

CEFNDIR

Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir gyhoeddi prosbectws bob blwyddyn. Ceir manylion am y cynnwys statudol yn y canllawiau hyn. Fodd bynnag, gall Cyrff Llywodraethol, wrth gwrs, ddewis cynnwys gwybodaeth ychwanegol a fydd yn ddefnyddiol, yn eu barn hwy. Ceir rhai awgrymiadau yn y llyfryn hwn o ran gwybodaeth ychwanegol a allai gael ei chynnwys. Fodd bynnag, dylid nodi mai dim ond awgrymiadau yw'r rhain, ac ni ddylid eu hystyried yn gynnwys statudol ar unrhyw gyfrif.

Dylai copïau o'r prosbectws fod ar gael, yn ddi-dâl, yn yr ysgol fel y gellir cyfeirio atynt ac y gellir eu dosbarthu i rieni os gofynnir am gopi. Mae hyn yn sicrhau bod gan rieni y wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgolion yn eu hardal. Os bydd y Corff Llywodraethol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, gellir cyfieithu'r prosbectws i iaith arall yn ogystal â'r Gymraeg a'r Saesneg a'i roi i rieni yn ddi-dâl.

Yn ogystal â'r wybodaeth a gyhoeddir yn y prosbectws, caiff Cyrff Llywodraethol eu hatgoffa o'u dyletswydd i ganiatáu i rieni weld copïau o wybodaeth y mae'n bosibl bod y prosbectws yn cyfeirio ati, megis:

Offerynnau Statudol a Chylchlythyrau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (yr hen Swyddfa Gymreig) a anfonwyd i ysgolion sy'n ymwneud â phwerau a dyletswyddau Cyrff Llywodraethol o dan Ran 5 Deddf Addysg 1996 (y cwricwlwm, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol); unrhyw adroddiadau ar yr ysgol a gyhoeddwyd gan Estyn; cynlluniau gwaith a meysydd llafur presennol; ac, ar gyfer ysgolion gwirfoddol, y rhan honno o'r ddogfen ymddiriedolaeth sy'n rheoli Addysg Grefyddol (AGr), ac unrhyw ddatganiad gan y corff llywodraethol am AGr.

AMSERU

Nid oes yn rhaid cyhoeddi prosbectysau ysgolion ar adeg benodol o'r flwyddyn. Fodd bynnag, anogir ysgolion i gyhoeddi eu prosbectws o leiaf chwe wythnos cyn y dyddiad terfynol y gofynnir i rieni wneud cais am le ar gyfer eu plentyn yn yr ysgol, neu fynegi eu dymuniad i gael lle.

FFORMAT

Gwerthfawrogi y gall cyhoeddi prosbectws newydd fod yn gostus i ysgolion. Mae rhai ysgolion yn dewis cyhoeddi'r wybodaeth flynyddol (e.e. gwybodaeth am berfformiad, presenoldeb a niferoedd y disgyblion) mewn atodiad ar wahân, a gaiff ei roi mewn poced yng nghefn y prosbectws, neu ei atodi i'r prosbectws, ac felly gellir ei newid yn hawdd. Mae nifer gynyddol o ysgolion bellach yn defnyddio gwefannau fel ffordd o roi gwybodaeth i rieni mewn ffordd ddeniadol a chost-effeithiol. Dangosir dwy enghraifft o dudalennau gwefannau ysgolion drosodd.

CYNHYRCHU DEUNYDD ATYNIADOL

Mewn ymateb i geisiadau gan ysgolion, Cyrff Llywodraethol ac AALL, mae'r Cylchlythyr hwn yn cynnwys canllawiau ar gynhyrchu prosbectysau ysgolion mwy atyniadol. Yn seiliedig ar enghreifftiau o arfer da a nodwyd gan Estyn, ceir awgrymiadau drwy'r llyfryn hwn ar gyfer ffyrdd o drefnu a chyflwyno'r wybodaeth i'w chynnwys mewn prosbectysau. Fodd bynnag, dylid nodi mai **awgrymiadau** yn unig yw'r rhain, a chyfrifoldeb ysgolion a Chyrff Llywodraethol yw penderfynu a hoffent eu defnyddio ai peidio, ac ym mha ffordd.

Trefnir y Cylchlythyr mewn ffordd sy'n disgrifio:

- 1) y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn prosbectysau ysgolion;
- 2) y wybodaeth y gellid ei chynnwys (e.e. gwybodaeth ddewisol nad yw'n ofyniad statudol ei chynnwys); a
- 3) enghreifftiau o arfer da.

Cyhoeddir rhestr gynnwys statudol lawn ar wahân yn Atodiad 2 ac yn y siart wal a amgaeir.

6

GWEFANNAU YSGOLION

Dydd Iau, Mai 10^{fed}, 2001.

Chwiliad | Y Dudalen Hafan | Y Newyddion Diweddaraf | Cyn-ddisgyblion

- Prospectws
- Staff
- Adnoddau Addysgu
- Tudalennau'r Disgyblion
- Cysylltiadau
- Cysylltwch â Ni
- Dyddiadur Digwyddiadau
- Tudalennau Adrannol

Y cydraniad gorau i edrych ar y wefan yw 1024 x 768.

Prospectws Ysgol Dyffryn, Blwyddyn Academaidd 2000 - 2001

Gwybodaeth i Rieni

Ysgol uwchradd sirol gymysg 11-16 oed yw Ysgol Dyffryn, sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd addysgol i tua 830 o ddisgyblion. Caiff ei threfnu mewn dwy uned lai ar wahân o ran ei threfniadau o ddydd i ddydd:

- i) yr Ysgol Isaf - disgyblion y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn (Blwyddyn 7 ac 8)
- ii) yr Ysgol Uchaf - disgyblion y drydedd, y bedwaredd a'r bumed flwyddyn (Blynnyddoedd 9, 10 ac 11)

Lleolir yr Ysgol Isaf yn Heol Talcennau, a lleolir yr Ysgol Uchaf yn Heol Bertha, Margam.

Mae gan y ddwy uned ei Hathro/Hathrawes â Gofal ei hun, sy'n atebol i'r Pennaeth am feithrin gwybodaeth agos o'r plant yn eu gofal, am ofalu am eu datblygiad, eu disgyblaeth a'u lles ac am gysylltu â rhieni'r disgyblion hynny.

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â chynnydd a lles y disgyblion yn y lle cyntaf at yr Ysgol Uchaf am ddisgyblion ym mlynnyddoedd 9, 10 ac 11 ac at yr Ysgol Isaf am ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7 ac 8. Gwneir trefniadau i sicrhau bod yr aelod priodol o'r staff ar gael ar gyfer cyfweliad, os bydd ei angen. Anogir rhieni, lle bynnag y bo'n bosibl, i wneud apwyntiad drwy ffonio neu ysgrifennu at yr ysgol, gan nodi enw a dosbarth eu plentyn a'r hyn yr hoffent ei drafod gyda'r ysgol.

Cynnwys

- [Gwybodaeth i Rieni](#)
- [Y Cyswllt ag Ysgolion](#)
- [Cynradd](#)
- [Cwricwlwm yr Ysgol](#)
- [Trefniadaeth yr Ysgol](#)

Gwybodaeth Gyffredinol

- [Tymhorau'r Ysgol](#)
- [Trefn yr Ysgol](#)
- [Oriau'r Ysgol](#)
- [Presenoldeb a Phrydlondeb](#)
- [Gwerslyfrau ac Offer](#)
- [Gwaith Cartref](#)
- [Rhieni a'r Ysgol](#)
- [Gofal Bugeiliol](#)
- [Gwisg yr Ysgol](#)
- [Salwch](#)
- [Iechyd](#)
- [Y Cyswllt ag Asiantaethau Allanol](#)
- [Addysg Gorfforol](#)
- [Prydau Bwyd yr Ysgol](#)
- [Teithio i'r Ysgol](#)
- [dechrau Grantiau/Cymorth Ariannol](#)

Ysgol Iau Brynhyfryd

- Cyflwyniad
- Yr Ysgol
- Clybiau
- Cyngor yr Ysgol
- Digwyddiadau Arbennig
- Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon
- Rheolau'r Ysgol
- Adnoddau
- Cynllun
- Dylunio'r Wefan

4:32PM

Yr Ysgol

- Ein hysgol
- Oriau
- Manylion cyswllt
- Gofal Bugeiliol
- Y Cwricwlwm
- Gwaith Cartref

- Gweithgareddau Allgyrsiol
- Disgyblaeth yr Ysgol
- Ein plant yn y flwyddyn gyntaf
- Polisi Codi a Dileu Taliadau
- Rheolau'r Ysgol
- Gwisg yr Ysgol

7

GWEFANNAU YSGOLION

Cynnwys

1. Manylion ymarferol

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Enw, cyfeiriad, rhif ffôn yr ysgol ar math o ysgol.
- Enw'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr.
- Dyddiadau gwyliau ysgol (gan gynnwys gwyliau hanner tymor) yn ystod y flwyddyn ysgol nesaf.
- Amserau sesiynau'r ysgol.
- Crynodeb o bolisiau ynglŷn â chodi a dileu taliadau y penderfynwyd arnynt gan Gorff Llywodraethol yr ysgol.

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys?

- Rhagair (gan y pennaeth).
- Datganiad Cenhadaeth/Nodau'r ysgol.
- Rhestr lawn o'r staff.
- Rhestr lawn o'r Llywodraethwyr.

Arfer da

- Mae neilltuo tudalen ar gyfer manylion yr ysgol, enw'r pennaeth a chadeirydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau eu bod wedi'u nodi'n glir ac y gellir dod o hyd iddynt yn hawdd (gweler pen y dudalen gyferbyn).
- Mae "llythyr" o groeso gan y pennaeth yn rhoi cyflwyniad defnyddiol i'r prospectws ynghyd â braslun ohono (gweler gwaelod y dudalen gyferbyn).

Cyfeiriad yr Ysgol:

Rhif Ffôn:

Rhif Ffacs:

Pennaeth:

Cadeirydd y Corff Llywodraethol:

Croeso

Annwyl Rieni,

Mae dewis yr ysgol gywir i'ch plentyn yn hollbwysig. Mae'r rhan fwyaf o rieni am sicrhau addysg dda i'w plant ond maent hefyd am iddynt fod yn hapus a theimlo'n ddiogel. Yn Ysgol St Joseph's, credwn y gallwn gynnig pob un o'r pethau hyn. Rydym yn ymfalchïo yn yr addysg eang, gytbwys a llawn a ddarparwn yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, ac mae safonau uchel yr addysgu a'r dysgu yn dwyn clod i waith caled y staff a'r disgyblion. Yn yr un modd, rydym hefyd yn ymfalchïo yn yr awyrgylch cyfeillgar a chydweithredol sydd bob amser i'w weld.

Mae llawer o ymwelwyr i'r ysgol yn sôn am y croeso cynnes y maent yn ei gael a chwarteisi ac aeddfedrwydd ein disgyblion. Nododd Adroddiad Arolygu 1994 "Pwysleisia'r Ysgol ansawdd y gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd a rydd i bob un o'r disgyblion. Ei hegwyddor ganolog yw ceisio datblygu doniau pob disgybl i'r eithaf a chadarnhau urddas a gwerth pob disgybl".

Rydym yn gwerthfawrogi ein disgyblion ac yn credu y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn werthfawr ac yn foddhaus. Petaech yn dewis anfon eich plentyn i St Joseph's, rwyf yn gwbl hyderus y byddwch wedi gwneud y penderfyniad cywir. Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi yn fuan ac os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, cofiwch gysylltu â mi unrhyw bryd yn yr ysgol.

Yn gywir

Pennaeth

2. Cwricwlwm, trefniadaeth addysgol a dulliau addysgu'r ysgol

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Datganiad cwricwlaidd, sy'n cynnwys crynodeb o'i gynnwys, esboniad o'r ffordd y caiff ei drefnu mewn perthynas â'r grwpiau oedran a'r cyfnodau allweddol gwahanol, a disgrifiad o'r dulliau addysgu a ddefnyddir.

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys?

- Pa bynciau o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a addysgir a sut y cânt eu trefnu, gan gynnwys pa rai a gânt eu haddysgu ar wahân a pha rai a gânt eu haddysgu gan ddefnyddio ymagwedd integredig.
- Sut y caiff Addysg Grefyddol ei threfnu.
- Pa bynciau dewisol sydd ar gael a sut y caiff dewisiadau eu cyfyngu.
- Y trefniadau ar gyfer cyfateb gwaith â phlant o alluoedd gwahanol, gan gynnwys trefnu setiau a grwpiau yn ôl gallu yn yr ystafell ddosbarth.
- Y trefniadau ar gyfer nodi plant sy'n eithriadol o alluog a darparu ar eu cyfer.
- Trefniadaeth yn yr ystafell ddosbarth a thechnegau addysgu, gan gynnwys addysgu'r dosbarth cyfan a defnyddio gwaith grŵp.
- Meintiau a chyfansoddiad dosbarthiadau (ee grwpiau oedrannau cymysg neu un oedran).
- Yr amser addysgu yn ystod diwrnod ysgol arferol (neu wythnos ysgol arferol), gan gynnwys AGr ond heb gynnwys y cydaddoliad dyddiol statudol, amser cofrestru dosbarth a chinio ac amserau egwyl eraill. Dylid cymharu hyn â'r isafswm a argymhellir yng Nghylchlythyr 43/90 y Swyddfa Gymreig "Rheoli'r Diwrnod Ysgol", sef:

Oedran	Oriau yr wythnos
5-7	21
8-11	23.5
12-16	25

- Manylion am sut y gall rhieni archwilio neu gael copïau o bolisiâu AAA yr ysgol.
- Crynodeb o nodau cwricwlaidd y Corff Llywodraethol (adran 371 Deddf Addysg 1996) ynghyd â'i bolisi ar y cwricwlwm (adran 370(1) Deddf Addysg 1996). Mae'n rhaid i'r AALL roi copi o'r datganiad hwn i bob un o'i ysgolion, ac eithrio ysgolion arbennig mewn ysbysai.
- Gwybodaeth am waith cartref, er enghraifft, faint o waith a roddir a'r math o waith a roddir.

- Manylion am ymweliadau'r ysgol, er enghraifft ymweliadau addysgol blaenorol ac ymweliadau addysgol arfaethedig.
- Gwybodaeth ynglŷn â throsglwyddo o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau neu o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Ysgolion uwchradd yn unig

- Cyrsiau llawn neu fyr y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 4, pynciau dewisol sydd ar gael yn y cyfnod hwn, a sut y caiff dewisiadau eu cyfyngu.
- Rhestr o gymwysterau allanol sydd wedi'u cymeradwyo, ynghyd â theitlau'r meysydd llafur cysylltiedig y darperir cyrsiau astudio ar eu cyfer i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol.

Arfer da

- Gall gwahanu'r wybodaeth am y cwricwlwm mewn Cyfnodau Allweddol roi ffocws defnyddiol (gweler isod).
- Dengys yr awgrymiad drosodd sut y gellir defnyddio diagramau syml i ddangos y cwricwlwm ar gyfer grwpiau oedran gwahanol.
- Gall rhoi geiriau allweddol neu bynciau'r cwricwlwm mewn print trwm fod yn fodd o rannu darnau mawr o destun (gweler t13).

Y Cwricwlwm Cenedlaethol



Yng Nghyfnod Allweddol 1 4-7 mlwydd oed

Yn y cyfnod hwn, gosodir prif sylfeini'r profiadau dysgu. Y pwyslais fydd ar ddatblygu'r sgiliau hanfodol, sef cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Drwy ddarparu cwricwlwm cyfoethog eang gan ddefnyddio ymagwedd integredig, anelwn at ddatblygu diddordebau'r plant tra'n cydnabod hefyd lefel eu haeddfedrwydd. Mae'r blynyddoedd hyn yn bwysig, pan fydd plant yn dysgu sut i arsylwi, gwranddo, ymateb a datblygu nid yn unig fel unigolion ond hefyd fel aelodau gofalgar o'n cymuned.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 8-11 mlwydd oed

Bydd sgiliau hanfodol megis cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd yn parhau i fod yn ganolbwynt i'n cwricwlwm. Ond, wrth i'w dealltwriaeth o'r disgyblaethau gwahanol wella, caiff mwy o amser ei roi i wyddoniaeth a'r pynciau sylfaenol eraill. Bydd y cwricwlwm yn parhau i gael ei gynnal o fewn thema integredig lle y bo hynny'n ystyrlon ac yn berthnasol.

Caiff plant eu hannog i ddatblygu hunan-hyder, annibyniaeth wrth ddysgu a sgiliau uwch mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.



TREFNIADAETH A'R CWRICWLWM

Rydym yn darparu i'n disgyblion gwricwlwm sy'n ceisio addysgu'r 'person cyfan' yn ogystal ag addysgu mewn ffyrdd academiaidd ac ymarferol. Ymdrechwn i sicrhau bod ein cwricwlwm yn briodol i anghenion y disgyblion gan ddefnyddio dulliau addysgu sy'n datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, deall cysyniadau a meithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae angen addysg o'r fath ar y disgyblion er mwyn iddynt lwyddo mewn cymdeithas ac economi sy'n newid yn gyflym.

Mae **cynnwys** y cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn berthnasol. Mae'r disgyblion yn astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac Addysg Grefyddol. Caiff y cwricwlwm ei adolygu'n rheolaidd er mwyn i'n disgyblion gael addysg sy'n berthnasol a chyfredol.

Mae gan yr ysgol **drefniadaeth academiaidd** sy'n seiliedig ar chwe chyfadrannau. Y cyfadrannau hyn yw Technoleg, Saesneg, Dyniaethau, Ieithoedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae'r **grwpiau addysgu** o fewn y Cyfadrannau yn amrywio o ran natur ond, yn gyffredinol, ceir dosbarthiadau gallu cymysg wrth ddechrau ym Mlwyddyn 7. Ceir proses o roi'r disgyblion mewn setiau, y penderfynir arnynt gan bob cyfadrannau, wrth i'r disgyblion fynd drwy'r ysgol. Ceir rhai setiau ym Mlwyddyn 7, gyda mwy o setiau ym Mlynnyddoedd 8-11. Saesneg yw cyfrwng yr addysg.

Mae **gwaith cartref** yn elfen bwysig o addysg y disgyblion a chaiff ei osod yn rheolaidd yn unol ag amserlen gyhoeddus. Caiff pob un o'r disgyblion ddyddiadur gwaith cartref. Gwerthfawrogi cefnogaeth y rhieni i oruchwylio bod y disgyblion yn cwblhau gwaith o'r fath.

Mae'r disgyblion yn astudio naill ai Ffrangeg neu Almaeneg fel **iaith dramor** ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 9. Ymgynghorir â'r rhieni o ran yr iaith a gynnigir.

O fewn Blynnyddoedd 10 ac 11, rhoddir rhywfaint o **ddewis** i'r disgyblion o ran y pynciau y maent yn eu hastudio. Cyfyngir ar niferoedd y disgyblion mewn rhai pynciau yn ôl yr offer arbenigol sydd ar gael (megis Astudiaethau Busnes a Thechnoleg). Lle na fydd digon o ddisgyblion yn dewis cwrs penodol, gellir ei dynnu yn ôl. Dim ond ychydig iawn o ddisgyblion na allant ddilyn pob un o'r cyrsiau y maent yn eu dewis. Mae pob disgybl yn astudio Gwyddoniaeth am 20% o amser y cwricwlwm ym Mlynnyddoedd 10 ac 11.

Dylai rhieni sydd am dynnu eu plant o'r gwersi **Addysg Grefyddol** neu'r **gwasanaethau**, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gysylltu â'r Pennaeth.

Caiff y disgyblion hynny ag **Anghenion Arbennig** eu nodi gan y staff Anghenion Arbennig drwy gysylltu'n agos â'r Ysgolion Cynradd a thrwy eu profi o fewn Eirias. Gwneir trefniadau priodol ar gyfer y disgyblion hyn, gan gynnwys cymorth o fewn gwersi gan y staff Anghenion Arbennig, a threfniadau ar gyfer eu tynnu o'r gwersi i gael cymorth ychwanegol. Cynhelir cwrs darllen a chywiro ym Mlwyddyn 7 ar gyfer disgyblion y byddai eu sgiliau darllen yn eu rhoi o dan anfantais mewn gwersi. Mae cydlynnydd cyfoethogi yn cydweithio â staff pynciol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau ymestyn ar gyfer disgyblion galluog iawn.

Mae pob disgybl ym Mlynnyddoedd 7-11 yn dysgu **Cymraeg** fel pwnc ar wahân.

At ddibenion gofal bugeiliol, mae'r disgyblion yn perthyn i grŵp (Dosbarth) tiwtorial gallu cymysg o dan ofal tiwtor dosbarth. Y Pennaeth Blwyddyn priodol sy'n gyfrifol am y cyfarwyddyd cyffredinol ac mae'n monitro ac yn cydlynu cynnydd academiaidd a chymdeithasol y disgyblion y mae'n gyfrifol amdanynt.

3. Trefniadau cwricwlaidd arbennig a threfniadau eraill a wneir ar gyfer categorïau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai â datganiadau o anghenion addysgol arbennig

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Trefniadau cwricwlaidd arbennig a threfniadau eraill ar gyfer categorïau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sydd â datganiadau ac sydd heb ddatganiadau.
- Crynodeb o bolisi AAA yr ysgol.

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys?

- Manylion am sut y gall rhieni archwilio neu gael copïau o bolisiau AAA yr ysgol.

4. Trefniadau o ran cwyno am y cwricwlwm

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Sut y gall rhieni ac eraill gael wybodaeth am y trefniadau o dan adran 409 Deddf Addysg 1996 ar gyfer delio â chwynion ffurfiol (i'r corff llywodraethol, yr AALL neu'r ddau) am y cwricwlwm neu unrhyw fater cysylltiedig. Dylai ysgolion a gynhelir gan AALL gadw copi o ddogfen yr AALL sy'n nodi'r trefniadau wrth law.

5. Cynnwys a threfniadaeth polisi addysg rhyw

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Gwybodaeth am ymagwedd gyffredinol yr ysgol tuag at addysg rhyw, gan gynnwys dethol deunyddiau addysgu sy'n briodol i anghenion ac oedrannau'r disgyblion.
- I ba raddau y mae addysg rhyw yn elfen ar wahân neu elfen annatod o'r cwricwlwm.
- Nodyn i atgoffa rhieni y gallant dynnu eu plant o'r holl gwrs addysg rhyw a ddarperir neu ran ohono.

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys?

- P'un a yw'r Corff Llywodraethol yn rhoi cyfle i'r rhieni weld deunyddiau addysgu drostynt eu hunain cyn iddynt gael eu cyflwyno yn yr ystafell ddogfen ai peidio, sut y defnyddir y deunyddiau hyn, ac a yw siaradwyr allanol yn cael eu defnyddio, ac ym mha ffordd y cânt eu defnyddio, i ymdrin â phynciau penodol sy'n gyson â pholisi cyffredinol y Corff Llywodraethol ac â gofynion statudol.

6. Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd a ddarperir yn yr ysgol

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- P'un a roddwyd dyfarniad i ddiddymu'r gofyniad am gydaddoliad sy'n Gristnogol yn gyffredinol naill ai ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion neu'r ysgol gyfan.
- Manylion am hawliau rhieni i dynnu plant yn gyfan gwbl neu'n rhannol o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, ac am y ddarpariaeth amgen a wneir ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi'u hesgusodi.
- Manylion am unrhyw gysylltiadau sydd gan yr ysgol â chrefydd benodol neu ag enwad crefyddol.

7. Y defnydd o'r iaith Gymraeg

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- I ba raddau y caiff pynciau eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a, lle y bo'r iaith yn gyfrwng addysgu mewn unrhyw bwnc, i ba raddau y mae addysg gyfatebol ar gael drwy gyfrwng y Saesneg.
- Yr amgylchiadau lle y gellir eithrio disgyblion rhag y Gymraeg fel pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol, a manylion am unrhyw ddarpariaeth amgen mewn achosion o'r fath.
- I ba raddau y mae'r Gymraeg yn iaith gyfathrebu bob dydd yn yr ysgol.

8. Chwaraeon

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Datganiad ar nodau'r ysgol ar gyfer chwaraeon, a'i ddarpariaeth ar gyfer chwaraeon.

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys?

- Pa chwaraeon, yn enwedig chwaraeon tîm, a gaiff eu chwarae yn yr ysgol.
- Faint o amser a ddyrennir i chwaraeon ar gyfer unigolion a chwaraeon tîm yn y cwricwlwm ffurfiol ar tu hwnt iddo (gan gynnwys y cyfleoedd i wneud chwaraeon y tu allan i'r oriau ysgol ffurfiol gyda'r hwyr neu ar y penwythnos).
- Y cyfleusterau sydd ar gael (gan gynnwys caeau chwarae unigol ac i ba raddau y cânt eu defnyddio gan y gymuned leol).
- Y cymwysterau AGo a hyfforddi sydd gan athrawon yr ysgol.

- Y defnydd a weir gan yr ysgol o hyfforddwy ac arbenigwyr chwaraeon eraill gan gynnwys rhieni.
- Cysylltiadau â chlybiau chwaraeon lleol.

Arfer da

Dengys yr enghraifft isod sut y gellid trefnu'r adran ar bolisi addysg rhyw, a'r math o wybodaeth y gellid ei chynnwys yn yr adran ar Chwaraeon. Dengys hefyd sut y gellid cynnwys gwybodaeth am ymweliadau'r ysgol (fel y crybwyllwyd yn Adran 2, "Cwricwlwm, trefniadaeth addysgol a dulliau addysgu'r ysgol").

Addysg Rhyw

Mae rhaglen addysg rhyw yr ysgol, y cytunwyd arni gan y Corff Llywodraethol, yn gysylltiedig â meysydd o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a hefyd addysg gymdeithasol gyffredinol. Y prif bwyslais yw cydberthnasau a bydd yn adlewyrchu anghenion y disgyblion wrth iddynt ddatblygu dros y cyfnodau allweddol. Mae'n bosibl i rieni weld y polisi a thrafod y deunyddiau addysgu a ddefnyddir. Mae gan rieni yr hawl i dynnu eu plant o addysg rhyw, pe dymunent.

Ymweliadau'r Ysgol

Mae plant yn mwynhau ymweld â llefydd ac maent yn dysgu llawer o brofiadau personol. Mae gennym raglen sylweddol o ymweliadau addysgol sy'n gysylltiedig â meysydd gwahanol o'r cwricwlwm. Ni chaniateir i ni godi tâl uniongyrchol, ond gallant ofyn am gyfraniad gwirfoddol. Mae croeso i rieni sy'n cael anhawster i dalu'r costau gysylltu â'r Pennaeth.



Rydym yn trefnu dau ymweliad preswyl bob blwyddyn. Mae B5 yn treulio wythnos yn Nhŷ Borfa ac mae B6 yn aros yng nghanolfan astudiaethau maes Abercregan. Dyma gyfleoedd ardderchog i astudio meysydd gwrthgyferbyniol. Os cewch Gymhorthdal Incwm, mae'n bosibl bod hawl gennych i gael cymorth ariannol.

Gweithgareddau Chwaraeon



Mae tir ardderchog gan ein hysgol ac mae gennym gae mawr a chwrt caled.

Ymgwymerir ag amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn lle y bydd plant yn cynrychioli'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys nofio, rygbi, criced, pêl-rwyd, tenis byr, rownders, gymnasteg, athletau, rhedeg traws gwlad a gwyddbwyll.

Mae unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan yn cynrychioli'r ysgol a chydabyddir hyn fel braint sy'n gyfartal â chyflawniad academaidd ac artistig. Mae hefyd yn meithrin ysbryd cyddynnu ac yn datblygu sgiliau. Rydym yn anelu at roi cyfle i blant o bob gallu gymryd rhan mewn gweithgareddau cystadleuol.

Mewn Addysg Gorfforol, disgwylir i'r plant wisgo trowsus byr, crys t ac esgidiau'r gampfa (nid esgidiau ymarfer trwm).

Caiff disgyblion B5 wersi nofio fel arfer a bydd angen gwisg nofio a thywel arnynt. Ein plant ni oedd enillwyr cyffredinol Pencampwriaethau Nofio Iau Ysgolion Abertawe am yr ail flwyddyn yn ddilynol.

9. Addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd, profiad gwaith

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys? (Ysgolion Uwchradd yn unig)

- Y ffyrdd o roi ymwybyddiaeth eang o'r byd gwaith i'r disgyblion, ffynonellau gwybodaeth a chyngor ar ddewisiadau addysgol a galwedigaethol cyn 16 ac ôl 16, a'r cyfleoedd i gwrsela unigolion.
- Ymagwedd yr ysgol tuag at ddatblygu'r Cwricwlwm i helpu'r disgyblion i feithrin blaengarwch a hunan-ddibyniaeth.
- Sut y caiff pobl ifanc eu helpu i ddeall diwydiant, yr economi, a'r cyfleoedd a gynigir drwy gychwyn busnes.
- Pa gysylltiadau a ddatblygwyd gyda chyflogwyr i ategu'r amcanion hyn ac i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith.

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys? (Ysgolion Cynradd)

- Unrhyw gamau ymarferol a gymerir gan yr ysgol i gyflwyno'r disgyblion i'r byd gwaith, hy i annog hunan-ddibyniaeth.
- Sut mae'r ysgol yn helpu'r disgyblion i ddeall diwydiant a'r economi.
- Unrhyw gamau a gymerir i ddatblygu cysylltiadau â chyflogwyr.

Arfer da

- Gellid cynnwys sylwadau gan ddisgyblion a chyflogwyr i ddangos amrywiaeth y profiad gwaith a ddarperir a'i fanteision ar gyfer y ddau barti (gweler t18).

PROFIAD GWAITH

Sylwadau a wnaed gan ddisgyblion, rhieni a chyflogwyr.

"Bu'n bleser gweithio gyda'r tri disgybl a wnaeth brofiad gwaith gyda ni. Roeddent yn dwyn clod i'w teuluoedd ac i'r ysgol yn eu ffordd o gyflwyno eu hunain yn ystod yr wythnos."



"Mae Matthew yn ymroi i'w waith yn dda iawn ac mae ganddo ymagwedd aeddfed a chyfrifol. Mae wedi profi ei fod yn gyfrannwr defnyddiol i'r adran a llysgennad da i'w ysgol."

"Roedd Nicola yn ferch fywiog iawn a oedd yn awyddus i roi cynnig ar unrhyw beth. ...Rwyf yn argymhell ei bod yn gwneud cais am swydd dros dro. Bu'n bleser ei chael hi gyda ni."

Ystyriwyd bod disgyblion unigol:

"yn ddymunol, yn barod eu cymwynas ac yn bwysicaf oll, yn drylwyr iawn"

"yn gallu parhau i weithio heb oruchwyliaeth gan gyflawni gwaith o safon"

"yn berson cwrtais, gweithgar a gofalus iawn, yn dysgu'n gyflym iawn – at ei gilydd yn ardderchog"

10. Ethos a gwerthoedd yr ysgol

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Datganiad sy'n disgrifio ethos yr ysgol sy'n sail i ddatblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau eraill.

Mae Adran 351 Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwricwlwm hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion, y dylid eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolyn.

- Manylion am y cytundebau ysgol-cartref a fabwysiedir gan y corff llywodraethol (o dan Adran 110(1) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998).

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys?

- Trefniadau cyffredinol o ran disgyblaeth yr ysgol, gan gynnwys unrhyw strategaethau i atal bwlio.
- Y trefniadau a fabwysiadwyd gan yr ysgol o ran gofal bugeiliol i ddisgyblion.
- Amlinelliad o'r prif weithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn yr ysgol, er enghraifft clybiau ar ôl yr ysgol, gweithgareddau chwaraeon, cyfleoedd cerdd/drama.
- Manylion am wisg yr ysgol/polisi dillad yr ysgol.
- Ymagwedd yr ysgol tuag at brydlondeb a phresenoldeb, a gweithdrefnau i gasglu plant o'r ysgol.
- Y trefniadau o ran cinio ysgol, er enghraifft yr opsiynau sydd ar gael i'r disgyblion, y gweithdrefnau o ran gwneud cais am brydau bwyd ysgol am ddim ar ffordd y caiff y disgyblion eu goruchwyllo yn ystod amser cinio.
- Polisi'r ysgol ynglŷn â materion meddygol, er enghraifft gweithdrefnau'r ysgol o ran gweinyddu meddyginiaeth o fewn oriau ysgol, pa gyfleusterau meddygol sydd ar gael ac unrhyw archwiliadau meddygol neu bigiadau a roddir yn yr ysgol drwy gydol y flwyddyn.

Arfer da

- Dengys yr enghraifft ar dudalen 20 (ar ben y dudalen) sut y gellir disgrifio ethos yr ysgol.
- Gall dyfyniadau gan ddisgyblion presennol neu flaenorol roi 'ymdeimlad' realistig i'r ysgol (gweler gwaelod tudalen 20).
- Dengys yr enghraifft ar dudalen 21 (ar ben y dudalen) sut y gellir trefnu gwybodaeth am weithgareddau allgyrsiol.
- Dengys yr enghraifft ar dudalen 21 (ar waelod y dudalen) sut y gellir cynnwys gwybodaeth am reolau'r ysgol a gwisg yr ysgol yn yr adran hon.

Mae St Davids yn gymuned llawn gofal lle mae pob unigolyn yn bwysig.

Mae pob disgybl yr un mor bwysig ac yr un mor werthfawr.

Mae'r ysgol yn ceisio helpu pobl ifanc i feithrin y wybodaeth, y sgiliau, yr hunan-hyder a'r ymwybyddiaeth er mwyn iddynt gyfrannu'n llawn at y gymdeithas.



Caiff ethos yr ysgol ei lywio drwy anelu at sicrhau Gofal, Ystyriaeth a Pharch rhwng y disgyblion, y staff a'r gymuned.

Mae ein system fugeiliol yn seiliedig ar bedwar Tŷ mae gan bob un ohonynt dim o ddiwtoriaid sy'n rhoi gofal a chymorth i blant unigol.



BYWYD YN Y CHWECHED DOSBARTH

“Ymhlith y nodweddion yr wyf yn eu cysylltu â bywyd yn y Chweched Dosbarth yma yn Ysgol Gyfun Eirias mae gwaith paratoi ardderchog ar gyfer addysg uwch, staff cyfeillgar agos atoch ac ystod eang o gyfleusterau chwaraeon. Mae'r awyrgylch cyfeillgar hefyd yn sicrhau bod disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol yn y Chweched Dosbarth yn ymgartrefu'n gyflym.”

SUT Y LLWYDDAIS I YMGARTREFU YN YSGOL GYFUN EIRIAS

“Ymunais ag Ysgol Gyfun Eirias ym Mlwyddyn 8 gan ddod yn aelod o Ddosbarth '0'. Yn ystod fy niwrnod 'pawf', roeddwn yn eithaf ofnus gan fy mod yn gwybod bod dros 1200 o ddisgyblion yn yr ysgol. Fodd bynnag, pan gyrhaeddais yr ysgol, roedd pob aelod o'r staff yn gyfeillgar iawn a llwyddais i ymgyswrtu â nifer y bobl yn gyflym. Saesneg oedd fy ngwers gyntaf ac roedd yn ddiddorol iawn. Mae'r athrawon yn dda iawn ac mae ganddynt amser i bob unigolyn. Deuthum yn rhan o grŵp ffrindiau yn fuan, a dysgais fy ffordd o gwmpas yr ysgol.”

PARATOI AR GYFER ARHOLIADAU TGAU

“Gan fy mod yn paratoi ar gyfer fy arholiadau TGAU, mae'r athrawon bob amser yn rhoi o'u hamser yn hael iawn i helpu gydag unrhyw anawsterau neu ymholiadau. Maent hefyd yn rhoi cyngor ar dechnegau ar gyfer arholiadau, adolygu a'r cyfleoedd sydd ar gael ar ôl TGAU, sydd wedi fy helpu gryn dipyn.”

GWAITH ALLGYRSIOL

Ystyrir bod gwaith allgyrsiol yn hanfodol i ddatblygiad y plentyn cyfan. Yn Llangewydd, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n codi hunan-barch, sy'n ehangu profiadau, sy'n datblygu hyder ac sy'n rhoi profiadau lle y gellir rhannu llwyddiant. Mae gennym amrywiaeth eang o weithgareddau y gall y plant gymryd rhan ynddynt.

Mae tua 90% o'r plant yn mynychu clybiau ar ôl yr ysgol a chlybiau amser cinio. Rydym wedi cael Gwobr Ragoriaeth gan yr elusen Education Extra oherwydd ein gwaith yn y maes hwn.

Gall ein plant gymryd rhan mewn gwersi offerynnau chwythbren, pres, piano, gitâr, recorder a ffidil. Gallant fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon a phrofiadau cerddorol. Trafodir y pynciau yn drylwyr. Ymhlith y clybiau cyffrous sydd ar gael gennym mae'r clwb Mathemateg, y clwb Cymraeg, y clwb Gwyddoniaeth, y clwb TG, archwilio'r Rhyngryd, clwb yr amgylchedd, partneriaeth Ewropeidd a chlwb Boris the Bookworm.

Credwn yn gryf fod llwyddiant mewn gweithgareddau allgyrsiol o fudd mawr yn yr ystafell ddosbarth.



Gwaith Allgyrsiol

Rydym yn trefnu ysgol lwyddiannus a threfnus lle y mae'r disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd hapus. Rydym yn disgwyl i bob un o'n disgyblion ymddwyn mewn ffordd a fydd yn dwyn clod i'w cartrefi a hwy eu hunain ac sy'n adlewyrchu ethos Catholig Ysgol Gyfun St Joseph's.



Fodd bynnag, ceir adegau pan fydd angen i ni roi cosbau a gofynnwn am eich cefnogaeth yn hyn o beth. Bydd cosbau, pan fo'u hangen, fel a ganlyn:

- Gorfod aros yn y dosbarth yn ystod rhan o'r amser cinio.
- Gorfod aros ar ôl yr ysgol lle y rhoddir 24 awr o rybudd i'r rhieni.
- Gwahardd disgybl o wersi cyffredin yn fewnol a darparu gwaith iddo.
- Am droseddau mwy difrifol, gellir gwahardd disgybl dros dro, neu hyd yn oed yn barhaol.

Gwisg Ysgol

Mae gwisg ysgol yn orfodol ac felly ceisiwn ddarparu gwisg ysgol sy'n ddeniadol i'r disgyblion. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i benderfynu beth sy'n addas mewn perthynas â golwg bersonol, er enghraifft, nid yw colur na gemwaith yn dderbyniol heblaw am oriorau, stydiau clustiau a medaliynau crefyddol. Yn ogystal, nid ydym yn ystyried bod ffasiynau gwallt eithafol yn briodol i'r ysgol.

Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu eiddo'r disgyblion, ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am golledion ac, felly, mae'n syniad doeth yswirio rhag colled ar eich Yswiriant Cynnwys Tŷ.

11. Cyfle cyfartal

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Manylion am unrhyw bolisiau a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethol mewn perthynas â chyfle cyfartal.
- Mae'n ddyletswydd ar y corff llywodraethol a'r pennaeth hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da (*Adran 4 Rheoliadau Llywodraethol Ysgolion (Cylch Gorchwyl) 2000*).

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys?

Unrhyw bolisiau a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethol:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil neu ryw;
- hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hil gwahanol, a rhwng bechgyn a merched;
- manylion am unrhyw strategaethau sydd gan yr ysgol i ymdrin ag ymwybyddiaeth hiliol;
- amlinelliad o unrhyw bolisi aflonyddu'n hiliol sy'n rhan o'r polisi cydraddoldeb hiliol neu strategaeth ymddygiad gyffredinol yr ysgol.

Caiff ysgolion eu hannog i gofnodi a monitro digwyddiadau hiliol a nodir a sut y cânt eu datrys. Caiff cyrff llywodraethol eu hannog hefyd i baratoi adroddiadau ar y digwyddiadau hyn ar gyfer y disgyblion, y rhieni a'r AALL. Am ragor o wybodaeth, gweler Cylchlythyr 3/99 Cynulliad Cenedlaethol Cymru "Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol."

12. Disgyblion ag anableddau

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Disgrifiad o'r trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag anableddau (gan gynnwys y trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig heb ddatganiadau).
- Manylion am y camau a gymerir i atal disgyblion ag anableddau rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.
- Manylion am y cyfleusterau a ddarperir i hwyluso mynediad i ddisgyblion ag anableddau i'r ysgol (er enghraifft, mynediad yn gorfforol neu fynediad i'r cwricwlwm).

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn diffinio person anabl fel rhywun sydd â "nam corfforol neu feddyliol a gaiff effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd." Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft nam ar y synhwyrâu a fyddai'n effeithio ar eu golwg a'u clyw, anableddau dysgu, anffurfiadau difrifol ac anhwylderâu graddol lle y mae'r nam yn debygol o ddod yn sylweddol.

Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol i ysgolion arbennig.

13. Diogelwch yr ysgol

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Disgrifiadau o'r trefniadau a wneir o ran diogelwch disgyblion a staff yr ysgol, ac adeiladau'r ysgol.

Ni ddylid rhoi gwybodaeth a allai beryglu diogelwch yr ysgol e.e. gwybodaeth sy'n nodi gwendidau diogelwch penodol neu fanylion am systemau larwm.

14. Gwybodaeth am dderbyn disgyblion

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Y trefniadau (os oes rhai) ar gyfer ymweliadau gan rieni sy'n ystyried gwneud cais i'r ysgol am le i'w plentyn.
- Polisi derbyn presennol yr ysgol, neu'r polisi presennol a weithredir gan yr AALL sy'n cynnal yr ysgol ar ran yr ysgol (h.y. y polisi a fydd yn penderfynu'r niferoedd a dderbynnir i'r ysgol yn y flwyddyn ysgol nesaf), gan gynnwys, mewn ysgolion cynradd, trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion o dan 5 mlwydd oed.

Ysgolion Uwchradd yn unig

- Nifer y lleoedd a oedd ar gael yn yr ysgol yn y flwyddyn ysgol gyfredol (h.y. ar gyfer prospectysau am 2001/2002, o ran derbyn disgyblion ar gyfer y flwyddyn ysgol 2002/2003 y flwyddyn ysgol gyfredol fyddai 2001/2002) a nifer y ceisiadau a'r rhai a fynegodd ffafriaeth ar gyfer y lleoedd hynny.
- Y terfyn o ran nifer y disgyblion a dderbynnir a oedd yn berthnasol yn y flwyddyn ysgol flaenorol (h.y. ar gyfer prospectysau am 2001/2002, y flwyddyn ysgol fyddai 2000/2001, fel y cyhoeddwyd yn ystod hydref 1999).
- Cyfanswm y ceisiadau, neu fynegiadau o ddiddordeb yn yr ysgol (gan ddangos y dewis cyntaf, yr ail ddewis a'r trydydd dewis ac ati ar wahân) a gafwyd cyn y dyddiad cau berthnasol yn ystod y flwyddyn ysgol 1999/2000 (dim ond ceisiadau ffurfiol a wnaed gan ddefnyddio'r ffurflen briodol neu drwy lythyr y dylid eu cyfrif).

Pa wybodaeth y gellid ei chynnwys?

- Cyfran y lleoedd a ddyrannwyd yn ôl pob un o'r meini prawf sydd ar waith mewn perthynas â'r ysgol lle y bo gormod o geisiadau am leoedd.
- Nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniad i beidio â derbyn plentyn a'r gyfradd lwyddo.

Efallai y byddai'r 2 ddarn hyn o wybodaeth ychwanegol yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer rhieni wrth wneud cais, neu fynegi ffafriaeth, i gael lle i'w plentyn mewn ysgolion lle mae gormod o geisiadau am y lleoedd sydd ar gael. Anogir yr ysgolion sy'n dewis cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol o'r fath i egluro nad yw canlyniad proses dderbyn ac apelio y flwyddyn flaenorol yn arwydd sicr o ran penderfyniadau'r flwyddyn nesaf, ond y gall gwybodaeth o'r fath gyorthwyo rhieni wrth ystyried eu hopsiynau.

Ymweld â'r ysgol

Mae croeso i rieni ymweld â'r ysgol. Mae'n well gwneud apwyntiadau i weld athrawon y tu allan i oriau ysgol gan fod ymweliad dirybudd yn gallu amharu ar wers dosbarth. Am resymau diogelwch, gofynnir i bawb sy'n ymweld â'r ysgol yn ystod y diwrnod ysgol fynd i'r swyddfa.

Darpar rieni

Caiff darpar rieni eu gwahodd i gysylltu â'r ysgol i drefnu ymweliad yn ystod oriau ysgol, nid yn unig i weld y pennaeth a'r staff, ond hefyd i brofi awyrgylch yr ysgol.

Derbyn plant

Y Dosbarth Meithrin

Caiff plant 3 oed a throsodd eu derbyn i'n Dosbarth Meithrin ym mis Medi o'r flwyddyn academaidd pan fyddant yn bedair oed. Mae plant yn dechrau'r ysgol mewn grwpiau bach dros ychydig o ddyddiau. Gobeithio, drwy ymuno yn ystod y blynyddoedd ffurfiannol hyn, ein bod yn gosod sylfeini addysgol da.

Cynhelir boreau a phrynhawniau coffi i groesawu rhieni newydd ynghyd â rhieni presennol.

Rydym yn cadw rhestr aros o blant ac rydym yn annog rhieni i roi enw eu plentyn ar y rhestr hon ar ôl eu pen-blwydd yn ddwy flwydd oed gan fod hyn yn helpu i flaengynllunio. Mae croeso i chi ofyn am ein llyfryn am y dosbarth meithrin.

Y Dosbarth Derbyn

Yr AALL yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob plentyn yn Ninas a Sir Abertawe. Cynigir lle mewn ysgol a gynhelir gan yr AALL i bob plentyn sydd ar fin dechrau addysg llawn amser.

Cynigir lle yn ein Dosbarth Derbyn yn awtomatig i blant yn ein Dosbarth Meithrin sy'n byw yn y dalgylch. Sicrheir lle yn ein hysgol i bob plentyn sy'n byw yn ein dalgylch.

Gellir trefnu derbyn plentyn i ddosbarthiadau hŷn ar unrhyw adeg a gofynnir i'r rhieni ymgynghori â'r Pennaeth. Bydd angen i blant y tu allan i'n dalgylch lenwi ffurflen lleoliad ffafriedig y gellir ei chasglu gan yr ysgrifenyddes.

15. Data presenoldeb

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

Ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol a'r grwpiau blwyddyn lle y bo pob un o'r disgyblion, neu'r mwyafrif ohonynt, o oedran ysgol gorfodol:

- cyfanswm yr absenoldebau anawdurdodedig ym mhob tymor, wedi'i rannu â chyfanswm y presenoldebau posibl yn y tymor hwnnw, a ddiffynnir fel cyfanswm y sesiynau, wedi'i lluosogi â chyfanswm y disgyblion y mae'r darpariaethau absenoldebau anawdurdodedig yn berthnasol iddynt ar ddechrau'r tymor hwnnw.

Cyfanswm yr absenoldebau anawdurdodedig

Cyfanswm y presenoldebau posibl x cyfanswm nifer y disgyblion y mae'r darpariaethau yn berthnasol iddynt

Os **A** = cyfanswm y presenoldebau posibl, **B** = cyfanswm y disgyblion y mae'r darpariaethau yn berthnasol iddynt, **C** = cyfanswm yr absenoldebau anawdurdodedig

$$Y \text{ Swm} = \left(\frac{C}{A \times B} \right) \times 100 = X\%$$

16. Canlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Cynradd)

Mae'n rhaid i ganlyniadau asesiadau statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) nodi'r rhai diweddaraf a gyhoeddwyd (*gwerthfawrogir ei bod yn bosibl na fydd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol ar gael pan gaiff y prospectws ei gyhoeddi, ac felly dylid defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd*). Cyhoeddir y canlyniadau cenedlaethol (Cymru gyfan) yn flynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurf taflenni a llyfrynau o'r enw "Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru", a gaiff eu hanfon at bob ysgol.

Mae'n bosibl i ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig ddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan, os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

CYFNOD ALLWEDDOL 1

Canlyniadau'r Ysgol a Chanlyniadau Cenedlaethol (Cymru gyfan)

- Nifer y disgyblion ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 1.
- Canran y disgyblion fel y nodwyd gan yr Asesiad Athrawon:
 - a) a oedd wedi cyrraedd pob lefel ym mhynciau Saesneg, Cymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth;
 - b) a oedd wedi cyrraedd pob lefel yn nhargedau cyrhaeddiad siarad a gwranddo, darllen ac ysgrifennu mewn Saesneg;
 - c) a oedd wedi cyrraedd pob lefel yn nhargedau cyrhaeddiad llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg (fel iaith gyntaf);
 - ch) a oedd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth cyfun.
- Canran y disgyblion fel y nodwyd gan Dasgau/Profion y CC:
 - a) a oedd wedi cyrraedd pob lefel yn nhargedau cyrhaeddiad darllen ac ysgrifennu mewn Saesneg;
 - b) a oedd wedi cyrraedd pob lefel yn nhargedau cyrhaeddiad llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg (fel iaith gyntaf);
 - c) a oedd wedi cyrraedd pob lefel mewn mathemateg.
- Canran y disgyblion a eithriwyd o'r asesiad o dan adrannau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Canlyniadau'r Ysgol a Chanlyniadau Cenedlaethol (Cymru gyfan)

- Nifer y disgyblion ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 2.
- Canran y disgyblion fel y nodwyd gan yr Asesiad Athrawon a Phrofion/Tasgau'r CC:
 - a) a oedd wedi cyrraedd pob lefel (yn cynnwys gweithio tuag at lefel 1) ym mhynciau Saesneg, Cymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth;
 - b) a oedd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth cyfun;
 - c) a eithriwyd o'r asesiad o dan Adrannau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996;
 - ch) a fethodd â chofrestru lefel oherwydd iddynt gollir asesiad oherwydd absenoldeb;
 - d) a fethodd â chofrestru lefel ar ôl cael eu hasesu;
 - dd) na chawsant eu cyflwyno ar gyfer y profion am eu bod yn gweithio y tu allan i lefel y profion.

Nid yw'n ofynnol i benaethiaid drosglwyddo unrhyw wybodaeth i'r Cyrff Llywodraethol i'w chynnwys mewn prosiectysau (neu Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr) lle y bo nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu yn llai na phump. Nodir hyn yn y rheoliadau er mwyn diogelu cyfrinachedd canlyniadau disgyblion unigol mewn ysgolion lle y bo nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu. Lle bo'r nifer yn llai na deg, ond yn fwy na phedwar, dim ond y wybodaeth ganlynol y mae angen i'r pennaeth ei throsglwyddo:

- ar gyfer Cyfnod Allweddol 1, canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 neu uwch;
- ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 neu uwch

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethol gynnwys datganiad yn esbonio pam bod y wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn y modd hwn, neu pam na chaiff unrhyw wybodaeth ei chynnwys.

Arfer da

- Mae blychau testun esboniadol ochr yn ochr â'r tablau yn ffordd ddefnyddiol o esbonio'r wybodaeth (gweler gyferbyn).

CANLYNIADAU ASESIADAU'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL (Blwyddyn)

Canran y Disgyblion ar Bob Lefel

	D	A	N	B	W	1	2	3	4	5	6	Lefel 4 ac uwch	
SAESNEG													
Asesiadau Athrawon	Ysgol	0	0	0	d/g	0	0	4	28	55	13	0	68
	Cenedlaethol	0	0	1	d/g	1	1	6	21	48	22	0	70
Prawf/Tasg	Ysgol	0	7	0	0	d/g	d/g	2	24	54	13	d/g	67
	Cenedlaethol	0	2	1	1	d/g	d/g	5	17	48	26	d/g	74
CYMRAEG													
Asesiadau Athrawon	Ysgol	0	0	0	d/g	0	0	4	25	53	18	0	71
	Cenedlaethol	2	0	1	d/g	0	1	5	24	49	18	0	67
Prawf/Tasg	Ysgol	0	5	0	0	d/g	d/g	3	24	49	19	d/g	68
	Cenedlaethol	2	2	0	2	d/g	d/g	4	22	50	18	d/g	68
MATHEMATEG													
Asesiadau Athrawon	Ysgol	0	0	0	d/g	0	0	0	11	72	17	0	89
	Cenedlaethol	0	0	1	d/g	0	1	5	22	47	24	0	71
Prawf/Tasg	Ysgol	0	3	0	0	d/g	d/g	0	15	54	28	d/g	82
	Cenedlaethol	0	2	1	1	d/g	d/g	5	22	44	25	d/g	69
GWYDDONIAETH													
Asesiadau Athrawon	Ysgol	0	0	0	d/g	0	0	0	9	70	21	0	91
	Cenedlaethol	0	0	1	d/g	0	0	4	17	53	25	0	78
Prawf/Tasg	Ysgol	0	5	0	0	d/g	d/g	0	4	67	24	d/g	91
	Cenedlaethol	0	2	0	0	d/g	d/g	3	14	55	26	d/g	81

DANGOS PYNCIAU CRAIDD*

Asesiad Athrawon	Ysgol	65
	Cenedlaethol	64
Prawf/Tasg	Ysgol	64
	Cenedlaethol	63

Bydd plentyn Blwyddyn 6 nodweddiadol wedi cyrraedd Lefel 4 fwy na thebyg - felly mae cyrraedd Lefel 5 yn ganlyniad eithriadol o dda. Mae'n anghyffredin cyrraedd Lefel 6 yn ll oed. Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn symud i lefel newydd tua phob dwy flynedd. Mae disgyblion yn debygol o gyrraedd lefel uwch mewn rhai pynciau ac agweddau nac mewn eraill ar yr un adeg.

D: Wedi'u heithrio neu wedi'u datgymhwyso o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996.

A: Disgyblion o fethodd â chofnodi lefel oherwydd absenoldeb.

N: Disgyblion a fethodd â chofnodi lefel am resymau ac eithrio absenoldeb.

B: Disgyblion na chofrestrwyd ar gyfer y profion am eu bod yn gweithio y tu allan i'r lefelau a bennwyd ar gyfer profion.

W: Yn gweithio tuag at lefel 1.

* Y canran o'r disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad.

17. Gwybodaeth am berfformiad ysgolion (Uwchradd)

Mae'n rhaid i'r canlyniadau asesiadau statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) nodi'r rhai diweddaraf a gyhoeddwyd (*gwerthfawrogi ei bod yn bosibl na fydd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol ar gael pan gaiff y prospectws ei gyhoeddi, ac felly dylid defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd*).

Cyhoeddir canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 cenedlaethol (Cymru gyfan) yn flynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurf taflenni a llyfrynau o'r enw "Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru", a gaiff eu hanfon at bob ysgol.

Mae'n bosibl i ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig ddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan, os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys?

- Cyfraddau absenoldebau anawdurdodedig ac awdurdodedig cyfartalog mewn ysgolion Uwchradd yn lleol ac yn genedlaethol (fel y cyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru).

CYFNOD ALLWEDDOL 3

Canlyniadau'r Ysgol a Chanlyniadau Cenedlaethol (Cymru gyfan)

- Nifer y disgyblion ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 3.
- Canran y disgyblion fel y nodwyd gan yr Asesiad Athrawon a Phrofion/Tasgau'r CC:
 - a) a oedd wedi cyrraedd pob lefel (yn cynnwys gweithio tuag at lefel 1) ym mhynciau Saesneg, Cymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth;
 - b) a oedd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth cyfun;
 - c) a eithriwyd o'r asesiad o dan Adranau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996;
 - ch) a fethodd â chofrestru lefel oherwydd iddynt gollir asesiad oherwydd absenoldeb;
 - d) a fethodd â chofrestru lefel ar ôl cael eu hasesu;
 - dd) na chawsant eu cyflwyno ar gyfer y profion am eu bod yn gweithio y tu allan i lefel y profion.

Nid yw'n ofynnol i benaethiaid drosglwyddo unrhyw wybodaeth i'r Cyrff Llywodraethol i'w chynnwys mewn prospectwsau (neu Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr) lle y bo nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu yn llai na phump. Nodir hyn yn y rheoliadau er mwyn diogelu cyfrinachedd canlyniadau disgyblion unigol mewn ysgolion lle y bo nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael eu hasesu. Lle y bo'r nifer yn llai na deg, ond yn fwy na phedwar, canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 yw'r unig wybodaeth y mae angen i'r pennaeth ei throsglwyddo.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethol gynnwys datganiad yn esbonio pam bod y wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn y modd hwn, neu pam na chaiff unrhyw wybodaeth ei chynnwys.

CANLYNIADAU TGAU, CYMWYSTERAU LEFEL DERBYN, TAG SAFON UWCH AC UWCH GYFRANNOL, CGCC A CGC

Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethol ysgolion Uwchradd a gynhelir gyhoeddi amrediad o wybodaeth am y canlyniadau uchod yn eu prospectwsau. Cynhwysir yr isafswm gwybodaeth sydd ei hangen o fewn Adroddiad Cryno o Gyflawniad yr Ysgol (RE2) a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall ysgol ddefnyddio copiau o'r Adroddiad hwn i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol os dymuna. Ceir rhestr lawn o'r wybodaeth yn Atodiad 1.

Arfer da

- Gall tudalen crynhoi cyn y canlyniadau roi crynodeb defnyddiol o berfformiad yr ysgol (gweler isod).



ATODIAD I'R PROSPECTWS 1999/2000

Gweler isod grynodedb o ganlyniadau 1998/1999 ar lefelau:

TGAU

SAFON UWCH

CGCC

Atodir hefyd grynodedb o ganlyniadau'r ysgol yn y Profion Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 3 ynghyd â chanlyniadau Cymru gyfan yn y Profion Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 3 ym 1998.

CANLYNIADAU TGAU 1998/99

Cyfradd Lwyddo A* - C	64%
Cyfradd Lwyddo A* - G	99%

Canran y Disgyblion a gyflawnodd 5 gradd A* - C	64%
---	-----

CANLYNIADAU SAFON UWCH 1998/99

Cyfradd Lwyddo A - B	44%
Cyfradd Lwyddo A - C	70%

Sgôr pwyntiau ar gyfartaledd ar gyfer Ymgeiswyr sy'n sefyll 2 Lefel Uwch	21
--	----

CANLYNIADAU CGCC 1998/1999

Canolradd (Teilyngdod/Rhagoriaeth) Uwch	95%
(Teilyngdod/Rhagoriaeth)	90.3

18. Manylion am gyrchfannau disgyblion dros 16 mlwydd oed

Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys? (ysgolion Uwchradd yn unig)

Ar gyfer **disgyblion 15 neu 16 oed** ar ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol.

- Cyfanswm y disgyblion yn y grŵp oedran.
- Y ganran sydd, ers hynny, wedi dechrau:

cwrs mewn unrhyw ysgol neu unrhyw gwrs addysg bellach;
cyflogaeth;
hyfforddiant;
unrhyw categori arall; ac
y rheini nad yw eu cyrchfan yn hysbys.

Ar gyfer **disgyblion 17 oed neu drosodd** ar ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol.


- Cyfanswm y disgyblion yn y grŵp oedran..
- Y ganran sydd wedi dechrau:

unrhyw gwrs addysg bellach;
unrhyw gwrs addysg uwch;
cyflogaeth;
unrhyw categori arall; ac
y rheini nad yw eu cyrchfan yn hysbys.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi gwybodaeth am gyrchfannau disgyblion a oedd yn 16 oed neu'n hŷn yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, fod yn rhaid i brosbectws ar gyfer y flwyddyn ysgol 2001/2002 (h.y. ar gyfer disgyblion sy'n cael eu derbyn yn y flwyddyn ysgol 2002/2003) gynnwys gwybodaeth am y disgyblion a oedd yn 15 oed neu'n hŷn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol 1999/2000.

Arfer da

- Gellid defnyddio siartiau cylch syml i ddangos cyrchfannau disgyblion mewn ffordd hawdd.



Atodiad 1

Canlyniadau TGAU, Cymwysterau Lefel Derbyn, TAG Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol, CGCC a CGC

Mae'n ofynnol i Gyrrff Llywodraethol gyhoeddi ystod o wybodaeth. Gallant, wrth gwrs, gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol ar gyflawniadau disgyblion. Dyma rai enghreifftiau: graddau TGAU a gyflawnir ar ôl 15 oed; graddau Safon Uwch/Uwch Gyfrannol a gyflawnir cyn 16 oed; cymwysterau galwedigaethol a gyflawnir ar lefelau gwahanol i'r rheini y gofynnir amdanynt.

Mae'n bosibl i ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig ddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan, os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny.

Mae **isafswm** y wybodaeth fel a ganlyn:

Ar gyfer disgyblion 15 oed

- Ar gyfer y flwyddyn ysgol dan sylw, nifer y disgyblion 15 oed ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr.
- Canran y disgyblion 15 oed:
 - a) a gyflwynwyd ar gyfer pump arholiad TGAU neu fwy neu gyfwerth;
 - b) a gyflawnodd TGAU a chymwysterau galwedigaethol cyfwerth â phump arholiad TGAU neu fwy graddau A*-C;
 - c) a gyflawnodd TGAU a chymwysterau galwedigaethol cyfwerth â phump arholiad TGAU neu fwy graddau A*-G;
 - ch) a gyflawnodd arholiadau graddau A*-C TGAU mewn mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) mewn cyfuniad (h.y. y Dangosydd Pwnc Craidd);
 - d) a gyflwynwyd ar gyfer o leiaf un Cymhwyster Lefel Derbyn (e.e. Tystysgrif Cyflawniad Addysgol), cwrs byr TGAU, TGAU neu gyfwerth;
 - dd) a gyflwynwyd ar gyfer un arholiad TGAU neu fwy neu gyfwerth;
 - e) a gyflawnodd TGAU a chymwysterau galwedigaethol cyfwerth ag un arholiad TGAU neu fwy graddau A*-C;
 - f) a gyflawnodd TGAU a chymwysterau galwedigaethol cyfwerth ag un arholiad TGAU neu fwy graddau A*-G;
 - ff) na chyflawnodd unrhyw raddau TGAU neu gyfwerth;
 - g) a gyflawnodd o leiaf un cwrs byr TGAU graddau A*-G neu gyfwerth;
 - ng) a gyflawnodd un Cymhwyster Lefel Derbyn neu fwy yn unig;
 - h) na chyflawnodd arholiad TGAU, cwrs byr TGAU, Cymhwyster Lefel Derbyn neu gyfwerth;
 - i) a) 1) gyflwynwyd ar gyfer; 2) a gyflawnodd unrhyw radd A*-C; 3) a gyflawnodd unrhyw radd A*-G, ym mhynciau TGAU Saesneg, TGAU Cymraeg (iaith gyntaf), TGAU mathemateg, TGAU gwyddoniaeth.

AR GYFER POB UN O'R CANLYNIADAU UCHOD, MAE'N RHAID DANGOS Y CYFARTALEDDAU CENEDLAETHOL A LLEOL A'R DDAU GYFARTALEDD MWYAF DIWEDDAR AR GYFER RHAGLEN DREIGL TAIR BLYNEDD, LLE Y BÔNT AR GAEL.

- Y ganran, yn ystod y cyfnod 1 Medi hyd at 31 Awst o'r flwyddyn ysgol dan sylw, a gyflawnodd:
 - CGCC Rhan 1 neu CGCC Lefel Sylfaenol neu CGC lefel 1;
 - CGCC Rhan 1 neu CGCC Lefel Ganolradd neu CGC lefel 2.

Y cymwysterau yw'r rhai a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gorff penodedig o dan adran 400 Deddf Addysg 1996 neu o dan adran 37 Deddf Addysg 1997.

Ar gyfer disgyblion 16, 17 a 18 oed

- Ar gyfer y flwyddyn ysgol dan sylw, nifer y disgyblion 16, 17 a 18 oed sydd ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr.
- Nifer y disgyblion a gyflwynwyd ar gyfer 2 arholiad TAG Safon Uwch neu fwy neu gyfwerth.
- Canran y rheini a gyflawnodd:
 - a) 2 radd A-C neu fwy;
 - b) 2 radd A-E neu fwy;
 - c) cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd;
 - d) pob un o'r ystodau sgorau pwyntiau canlynol

0	1 i 4	5 i 9	10 i 14	15 i 19	20 i 24	25 i 29	30 neu fwy
---	-------	-------	---------	---------	---------	---------	------------

- Nifer y disgyblion a gyflwynwyd ar gyfer llai na 2 arholiad TAG Safon Uwch neu gyfwerth. Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny:
 - a) cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd;
 - b) cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul pwnc;
 - c) canran y rheini a gyflawnodd bob un o'r ystodau sgorau pwyntiau canlynol

0 i 4	5 i 9	10 i 15
-------	-------	---------

AR GYFER POB UN O'R CANLYNIADAU UCHOD, MAE'N RHAI DANGOS Y CYFARTALEDDAU CENEDLAETHOL A LLEOL A'R DDAU GYFARTALEDD MWYAF DIWEDDAR AR GYFER RHAGLEN DREIGL TAIR BLYNEDD, LLE Y BÔNT AR GAEL

- Nifer y disgyblion, yn ystod y cyfnod 1 Awst hyd at 31 Gorffennaf o'r flwyddyn ysgol dan sylw, a gyflawnodd:
 - CGCC Canolradd neu CGC lefel 2;
 - CGCC Uwch neu CGC lefel 3.

Y cymwysterau yw'r rhai a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gorff penodedig o dan Adran 400 Deddf Addysg 1996 neu o dan Adran 37 Deddf Addysg 1997.

Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyflwyno canlyniadau ar gyfer bechgyn a merched ar wahân, ond anogir ysgolion i wneud hynny.

Caiff Cyrff Llywodraethol eu hannog i restru mewn lle priodol yn y Prosbectws nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol sydd â datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig.

Atodiad 2

Cynnwys Prosbectysau Ysgolion: Cyfeiriadau at Offerynnau Statudol

Ar gyfer ysgolion Uwchradd yn unig y maer eitemau mewn llythrennau italic.

Eitem		Cyfeiriad at yr O.S. 1999/1812 ¹ Atodlen 3
Manylion yr Ysgol	Enw	Para 1
	Cyfeiriad	
	Rhif ffôn	
	Enw'r pennaeth;	
	Enw Cadeirydd y Corff Llywodraethol	
	Math o ysgol	Para 2
Dyddiadau'r tymhorau ac amserau'r sesiynau		Para 14(1) a (2)
Polisi codi a dileu taliadau		Para 13
Datganiad cwricwlaidd; dulliau addysg a threfniadaeth		Para 6(1)
Trefniadau cwricwlaidd arbennig a threfniadau eraill a wneir ar gyfer categorïau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sydd â datganiadau ac sydd heb ddatganiadau. Crynodeb o bolisi AAA yr ysgol		Para 6(1) a (2)
Trefniadau o ran cwyno am y cwricwlwm		Para 8
Cynnwys a threfniadaeth polisi addysg rhyw		Para 9
Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn yr ysgol		Para 12(1) i (4)
Y defnydd o'r iaith Gymraeg		Para 17(1) a (2)
Datganiad ar nodau'r ysgol o ran chwaraeon, a'i darpariaeth ar gyfer chwaraeon		Para 11
<i>Addysg gyrfaoedd a threfniadau ar gyfer profiad gwaith</i>		Para 10
Ethos a gwerthoedd yr ysgol (sy'n cynnwys manylion am y cytundebau cartref-ysgol)		Para 7; Para 14 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1111 ² para 2(2)
Manylion am unrhyw bolisiau cyfle cyfartal		
Disgyblion ag anableddau; trefniadau derbyn a mynediad yn ogystal â'r camau a gymerir i atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill		Para 14 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1111 para 2(2)
Diogelwch yr ysgol: y trefniadau diogelu a iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion, y staff ac adeiladau'r ysgol		
Gwybodaeth am Dderbyn Disgyblion		Para 3 i 5
Data presenoldeb		Para 25

¹ O.S. 1999/1812 Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999

² O.S. 2001/1111 Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygiad) 2001

Eitem	Cyfeiriad at yr O.S. 1999/1812 ¹ Atodlen 3
Canlyniadau asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yr ysgol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 fel y bo'n briodol. Mae'n bosibl i ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig ddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan, os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny	Para 18(1) i (8), 19(1) i (6) a 20 (1) i (6)
Canlyniadau asesiadau'r CC cymharol cenedlaethol (Cymru gyfan) diweddaraf sydd ar gael fel y cyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	Para 18(9), 19(7) a 20(7)
<i>Canlyniadau arholiadau'r ysgol (Cymhwyster Lefel Derbyn, TGAU, arholiadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol a chymwysterau galwedigaethol) fel y darparwyd yn ffurflen RE2.</i> Mae'n bosibl i ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig ddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan, os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny	Para 16(1) a (3)
<i>Canlyniadau arholiadau cymharol cenedlaethol (Cymru gyfan) diweddaraf sydd ar gael fel y cyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	Para 16(2)
<i>Manylion am gyrchfannau disgyblion dros 16 mlwydd oed</i>	Para 23 a 24

CYNNWYS PROSPECTYSAU YSGOLION: RHESTR WIRIO

Ar gyfer ysgolion Uwchradd yn unig y mae'r eitemau mewn *llythrennau italig*.

Eitem		√
Manylion yr Ysgol	Enw	
	Cyfeiriad	
	Rhif ffôn	
	Enw'r Pennaeth	
	Enw Cadeirydd y Corff Llywodraethol	
	Math o ysgol	
Dyddiadau'r tymhorau ac amserau'r sesiynau		
Polisi codi a dileu taliadau		
Datganiad cwricwlaidd; dulliau addysgu a threfniadaeth		
Trefniadau cwricwlaidd arbennig a threfniadau eraill a wneir ar gyfer categorïau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sydd â datganiadau ac sydd heb ddatganiadau; Crynodeb o bolisi AAA yr ysgol		
Trefniadau o ran cwyno am y cwricwlwm		
Cynnwys a threfniadaeth polisi addysg rhyw		
Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn yr ysgol		
Y defnydd o'r iaith Gymraeg		
Datganiad ar nodau'r ysgol o ran chwaraeon, a'i darpariaeth ar gyfer chwaraeon		
<i>Addysg gyrfaoedd a threfniadau ar gyfer profiad gwaith</i>		
Ethos a gwerthoedd yr ysgol (sy'n cynnwys manylion am y cytundebau cartref-ysgol)		
Manylion am unrhyw bolisiau cyfle cyfartal		
Disgyblion ag anableddau; trefniadau derbyn a mynediad yn ogystal â'r camau a gymerir i atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill		
Diogelwch yr ysgol: y trefniadau diogelu a iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion, y staff ac adeiladau'r ysgol		
Gwybodaeth am dderbyn disgyblion		
Data presenoldeb		
Canlyniadau asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yr ysgol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 fel y bo'n briodol (Mae'n bosibl i ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig ddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan, os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny)		
Canlyniadau asesiadau'r CC cymharol cenedlaethol (Cymru gyfan) diweddaraf sydd ar gael fel y cyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru		
<i>Canlyniadau arholiadau'r ysgol (Cymhwyster Lefel Derbyn, TGAU, arholiadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol a chymwysterau galwedigaethol) fel y darparwyd yn ffurflen RE2. (Mae'n bosibl i ysgolion â Dosbarthiadau Arbennig Penodedig neu Unedau Arbennig Penodedig ddangos dwy set o wybodaeth. Gellir cyflwyno ail set sy'n cynrychioli canlyniadau prif ffrwd yn unig ochr yn ochr â chanlyniadau'r ysgol gyfan, os bydd ysgolion yn dewis gwneud hynny)</i>		
Canlyniadau arholiadau cymharol cenedlaethol (Cymru gyfan) diweddaraf sydd ar gael fel y cyhoeddwyd yn y Llyfrynnau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion		
Manylion am gyrchfannau disgyblion dros 16 mlwydd oed		

